

**COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**  
**7:30YH 18<sup>FED</sup> MAI 2022**  
**YN NGHANOLFAN GWYTHERIN**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd bawb gan Einir Williams (EW)

**1.2** Presennol: Diane Roberts (DR), Ann Vaughan (AV), R. Emlyn Williams (REW), Mark Davies (MD), Gwydion Jones (GJ) & Austin Roberts (AR) – Cynghorydd Sir Newydd

**1.3** Ymddiheuriadau: Clwyd Roberts (CR) & Myrddin Davies (MD)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

AV 7.3

**3 COFNODION I'W GWIRO 4<sup>YDD</sup> MAI 2022**

Cynnigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan REW.

**4 MATERION YN CODI**

AV wedi cysylltu efo Kevin Roberts yn absenoldeb CR i holi am y dyfnbris ar gyfer y gwaith drafodwyd. Cyfanswm £549.60. MD yn cynnig derbyn y dyfnbris, pawb yn gytun. AV i gysylltu efo Kevin i ofyn wrtho ymgymryd â'r gwaith.

DR yn adrodd fod ebost wedi ei dderbyn gan Elen (cadeirydd llywodraethwyr yr ysgol) ynglyn a sefyllfa parcio yr ysgol, yn adrodd fod pobl yn dreifio at y giat bach i gasglu'r plant. Adroddodd ei bod yn deall fod Mrs Green wedi ysgrifennu at rieni eto yn eu hatgoffa o'r drefn ar gyfer codi plant. Oherwydd fod y safle yn le cyhoeddus, ddim yn fater i'r cyngor cymuned. AR am drefnu cyfarfod safle efo DR a gwneud ymholiadau efo'r Cyngor Sir ynglyn â'r mater.

REW dal i aros am bris gan Dei Evans ynglyn â'r glaswellt.

Adroddodd EW nad oedd dyfnbrisiau wedi dod i law yn dilyn hysbysu i drwsio pontbren ffynnon y plwyf yng Ngwytherin. Pawb yn gytun i ofyn wrth Kevin Roberts i ymgymryd â'r gwaith.

DR wedi gyrru côd ymddygiad i'r cynghorwyr, wedi cysylltu efo Un Llais, côd ymddygiad newydd yn debygol o gael ei gyhoeddi yn fuan.

**5 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD**

**5.1** EW wedi derbyn neges gan CR cyn iddo fynd ar ei wyliau i nodi ei fod wedi siarad efo Leah Edwards, sydd yn gweithio i Dŵr Cymru oedd wedi gaddo mynd i edrych ar y tap. EW heb glywed dim byd pellach.

**5.2** AR wedi gwneud ymholiadau ac wedi cael gwybod fod y gwaith angen ei wneud yn debygol o gymeryd 3 mis i'w gwblhau yn 2023 a buasai'r ffordd ar gau dros y cyfnod hwnw. Esboniodd AR broses gwaith ffordd y Cyngor Sir i'r cynghorwyr. Diolchodd Non Davies i AR am ei waith ynglyn â'r mater hwn.

DR wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir tair mlynedd yn ôl yn dweud fod y ffordd yma'n beryglus, wedi codi'r mater eto yn ddiweddar efo'r Cyngor ond heb gael ymateb.

**6 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**6.1** Dim ceisiadau.

Cais wedi dod i law erbyn y pwyllgor heno, i'w drafod yn ystod y pwyllgor nesaf.

## **7 MATERION Y CYNGOR**

**7.1** EW yn adrodd fod angen penodi swyddogion a dyrannu swyddogaethau. Wedi gofyn wrth CR sydd yn fodlon cario ymlaen efo'r swydd cadeirio, pawb yn gytun iddo gario ymlaen. EW yn cynnig ei hun fel is-gadeirydd, pawb yn gytun.

Trafododd EW y rhestr dyrannu swyddogaethau. Swyddogaeth talu biliau a'u gyrru i MD. Talu sieciau i mewn i'r banc – REW mynwentydd. Cododd REW fod angen paratoi asesiad risg a tharfod y prisiau, trefnu pwyllgor bach i drefnu hyn.

Cododd DR fod angen cwblhau *corporate safeguard policy* er mwyn cael pris gan gwmni yswiriant arall felly buasai'n syniad cynnal y cyfarfod pwyllgor mynwentydd cyn gynted a phosibl ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod llawn. Trafododd fod gostyngiad yn y pris ar gael wrth gwblhau'r ffurflen.

Gofynnodd DR pwy oedd yn gyfrifol am y diffibrilyddion, EW yn cadarnhau nad perchnogaeth y Cyngor Cymuned yw rhain. EW yn atgoffa fod angen cynnal a cadw rhain yn rheolaidd, wedi gwneud ymholiadau ynglyn â hyn.

Pwyllgor llwybrau cyhoeddus – DR, CR & GJ. AR yn adrodd fod y Cyngor Sir heb swyddog llwybrau cyhoeddus. Wedi cael cwyn gan aelod o'r cyhoedd am gyflwr llwybr, adroddodd AR fod cais wedi cael ei wneud i reolwr ystad y tîrfeddianwr i glirio'r llwybr. Cais pellach wedi ei wneud, os na fydd ymateb bydd llythyr yn cael ei yrru gan y Cyngor Sir yn uniongyrchol i'r perchennog. AV yn codi fod pamffled gan y Cyngor Cymuned i ddangos y llwybrau o amgylch y fro yn y gorffennol.

EW wedi diweddarau'r rhestr swyddogaethau.

**7.2** AV yn cynnig cyf-ethol Jên Roberts fel cynghorydd cymuned. AV wedi cael caniatad i roi ei henw gerbron y pwyllgor. EW i gysylltu efo'r Cyngor Sir i ofyn am wybodaeth pellach ynglyn â cyf-ethol. I'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf.

EW wedi holi rhywun ym Mhandy Tudur ond heb gael ateb eto.

**7.3** EW yn cadarnhau fod y cynrychiolaeth o Bute Energy yn mynychu'r cyfarfod ar 25<sup>ain</sup> Mai 2022. EW wedi bod yn cysidro cadeirio'r cyfarfod a wedi penderfynu y buasai'n gwneud. Diolchwyd i EW am gytuno i wneud.

EW wedi trefnu cyfieithydd ar y pryd ar gyfer y cyfarfod. Wedi trefnu galwad ffôn ar gyfer dydd Llun i gael gwybodaeth llawn am fwriad Bute Energy ar gyfer y cyfarfod. AR yn ymddiheuro na fydd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Adroddodd EW fod 6 aelod o'r cyhoedd wedi gofyn am ganiatad i siarad yn y cyfarfod.

Non Davies yn diolch i EW am ei gwaith yn trefnu'r cyfarfod. Gofynnodd am wybodaeth am strwythur y cyfarfod ac os fydd cyfarfod Bute Energy ar ddechrau'r cyfarfod ac os y bydd cyfle wedyn i ymateb. EW yn cadarnhau fydd yr eitem yma ar ddechrau'r agenda. DR am wneud ymholiadau efo'r ganolfan yn Llangernyw.

**7.4** Wedi ei drafod yn 7.1 uchod, i'w drafod eto yn ystod y cyfarfod nesaf.

**7.5** EW wedi trefnu'r sgipiau a wedi paratoi poster i hysbysu, 19<sup>eg</sup> o Orffennaf yn Gwytherin a 26<sup>ain</sup> Gorffennaf ym Mhandy Tudur. Hysbys i'w roi ar wefan y cyngor hefyd.

## **8 MATERION ARIANNOL**

**8.1** DR wedi paratoi'r cyfrifon erbyn y cyfarfod diwethaf, trafododd DR y ffigyrau. Pawb yn derbyn y cyfrifon ac yn eu cymeradwyo.

**8.2** EW yn cynnig cario ymlaen efo'r cyfrifydd, Iona Edwards, i wneud hyn, pawb yn gytun. DR yn atgoffa nad yw'r Cynor wedi derbyn anfoneb gan BDO ers 2017, ond hyn ddim yn amharu ar y cyfrifon.

## **9 CROESAWU'R CYNGHORYDD SIR NEWYDD**

Croesawodd EW Austin Roberts(AR), y Cynghorydd Sir newydd i'r cyfarfod a'i longyfarch ar ei swydd newydd ar ddechrau'r cyfarfod.

## **10 GOHEBIAETH**

EW wedi derbyn gohebiaeth yn gofyn os oes aelod o'r Cyngor Cymuned am ymuno a phwyllgor safonau'r Cyngor Sir.

## **11 BILIAU**

**11.1** Enlli: £182.14, cytunwyd i dalu.

## **12 MATERION LLEOL**

**DR** yn codi'r mater o or-yrru drwy Llangernyw eto, adroddodd fod strategau yn profi fod y gwahaniaeth mawr rhwng goroesi cael eich taro gan gar yn teithio ar gyflymder 20mya a char yn teithio ar gyflymder o 30mya. DR wedi bod yn gwneud ymholiadau efo cyngorau eraill dros y Gogledd ac mae'n debyg fod y broblem o dractorau'n gyrru drwy pentrefi yn thema ymhobman.

EW hefyd yn ategu fod ebost wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd yn cynnig fod y Cyngor Cymuned yn ariannu arwyddion sydd yn fflachio yn y pentref. Soniodd AV fod arwyddion solar ar gael, wedi cael gwybod am rai yn Iwerddon. EW wedi gofyn i'r aelod o'r cyhoedd ymuno ac un o gyfarfodydd y Cyngor i ategu hyn eto. AR hefyd wedi cael cwyn fel hyn ym mhentref Eglwysbach. Adroddodd AR fod pob arwydd 30mya yn cael ei newid i 20mya yn 2023.

AR yn cynnig cysylltu ar ran y Cyngor Cymuned i wneud ymholiadau sut i gael arwydd yn fflachio yn Llangernyw a gofyn os oes modd cael croesfan rhwng Parc Aelas a Glan Collen ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned. Gofynnodd AV iddo wneud ymholiadau am gael arwyddion solar hefyd.

EW am ddiweddarau'r aelod o'r cyhoedd am y drafodaeth. DR yn gofyn i'r mater o'r arwyddion gael ei ddelio ag ô cyn gynted a phosibl.

Angen torri'r gwrych sydd yn gorchuddio arwyddion ffyrdd 30mya & 20mya yn Llangernyw. Llwybr sydd yn dechrau yn Fedwen Arian am gyfeiriad Hafodunos, dim modd cerdded ar y palmant oherwydd gor-dyfiant.

Adroddodd fod twll yn y ffordd yn Glan Collen ger y giat bach sydd yn mynd i'r ysgol.

AR yn awgrymu gyrru rhestr i ERF i hysbysu'r Cyngor Sir fod angen gwneud yr uchod, EW am gopio AR i'r ebost.

DR wedi derbyn bwletin gan Un Llais heddiw yn trafod Cymru'r Dyfodol a Dylunio Ffermydd Gwynt yng Nghymru. DR am ofyn wrth Un Llais i wneud yn siwr fod ebyst yn cael eu gyrru i gyfeiriad y Cyngor Cymuned.

**REW** yn adrodd fod car wedi ei adael ger croesffordd Plas Matw, wedi hysbysu'r awdurdodau fod y car yno.

**AV** yn codi fod dŵr yn dal i fod yn ar y ffordd ar ôl pasio Ddôl Bach am gyfeiriad Llanrwst. EW am adio hwn i restr ERF. Ateggodd AR fod twll yn y ffordd ger Hendre Fawr, hefyd i'w adio i'r rhestr.

**MD** yn ategu cwynion am or-yrru. Cyflwr ffordd Waen Plas yn wael iawn oherwydd problem dŵr, i'w adio i restr ERF.

## **13 CYFARFOD NESAF**

25<sup>ain</sup> Mai 2022 yng Nghanolfan Bro Cernyw

Cyfarfod yn dod i ben 9:40pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan